Datganiad i'r wasg

FINANCE WALES
CYLLID CYMRU

Dydd Mawrth, 9 Mehefin 2009

Cwmni laser yn targedu twf ar ôl i'r rheolwyr ei brynu

Mae perchnogion newydd cwmni yn Ne Cymru a dreuliodd wyth mlynedd yn datblygu amrediad o laserau perfformiad uchel a dibynadwy iawn yn anelu i ddyblu eu trosiant o fewn tair blynedd ar ôl i'r rheolwyr brynu'r cwmni.

Sefydlwyd Global Laser yn 2001 gan bum buddsoddwr preifat. Ymunodd y cyfarwyddwr cyllid, David Berckerley, â dau o'r pum buddsoddwr cyntaf - y cadeirydd, Dr John Watkinson a'r rheolwr gyfarwyddwr, John Miller - i brynu cyfranddaliadau'r tri buddsoddwr arall gwreiddiol.

Ariannwyd y ddêl gan y rheolwyr a Cyllid Cymru ccc, gyda Mark Hislop o Broomfield & Alexander yn cynghori ar y prisiant, y cynllun busnes, rhagolygon, penawdau cytundeb y telerau, negodi'r dêl a rheoli ynghyd â strwythuro'r ddêl a chynllunio treth.

Cafwyd cyngor cyfreithiol gan Eversheds a chefnogaeth ymgynghoriaeth hefyd gan y Banc Gwybodaeth, cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cefnogi cwmnïau twf uchel yng Nghymru.

Nawr mae'r cwmni, sy'n cyflogi 22 o bobl ar Stad Ddiwydiannol Cwmtyleri yn Abertyleri, yn barod i fanteisio ar flynyddoedd o fireinio cynnyrch a datblygu technoleg unigryw ar gyfer rheoli laserau digidol i gynyddu trosiant o'i £1.2m presennol i £3m yn y tair blynedd nesaf.

Mae modiwlau laser uwch Global Laser yn cynnwys deuod laser i gynhyrchu'r golau, lens i greu'r allbwn a ddymunir - llinell syth, patrwm grid, neu gylchoedd consentrig, a chydrannau rheoli electronig, a medrir eu defnyddio mewn amrywiaeth enfawr o gymwysiadau o roboteg a gofal iechyd i amddiffyn.

Fe'i gwerthir ym mhob rhan o'r byd, yn cynnwys yr Unol Daleithiau, Tsieina, Japan a Korea, ac maent yn cynnwys darllen codau bar, gosod cydrannau ar fyrddau cylchred neu fotymau ar grysau, llywio cleifion ar sganeri meddygol, sganio retina a mesur dyfnder teiars ar geir F1 wrth iddynt fynd amgylch cylch rasido.

Dywedodd John Miller, y rheolwr gyfarwyddwr sy'n gyn aelod o fwrdd Vodafone a Chymdeithas Adeiladu Halifax, mai ansawdd ac arloesedd oedd yr arwyddeiriau a fyddai'n mynd â'r cwmni ymlaen i farchnadoedd newydd a chontractau newydd.

"Dros y blynyddoedd, rydym wedi mynd â laserau o fod yn eitem cyfleustod gwerth isel i amrediad o ddeunyddiau soffistigedig a phŵer uchel," meddai.

-MWY -

"Mae'r arloesedd hwnnw wedi parhau gyda'n gwaith dros y tair blynedd ddiwethaf i ddatblygu meddalwedd sy'n awr yn ein galluogi i symud o reolaeth analog i ddigidol. Ni yw'r unig gwmni sy'n medru gwneud hyn, ac mae'n golygu ein bod yn medru gwneud laserau bach iawn a fedrir eu defnyddio mewn amrywiaeth fwy byth o gymwysiadau.

"Byddwn yn awr yn edrych i wella ein trefniadau partneriaeth gyda'n cwsmeriaid, dosbarthwyr ac asiantau, a gyda'n gilydd sicrhau llyfr archebion cryf iawn."

Dywedodd Mark Hislop, cyfarwyddwr cyllid corfforaethol Broomfield & Alexander, fod y cwmni yn enghraifft dda o gwmni gyda chynnyrch ansawdd uchel mewn marchnad sy'n datblygu, a fyddai'n manteisio o feddwl ffres a natur ddeinamig ei strwythur rheoli newydd.

"Bydd y pryniant gan y rheolwyr yn galluogi Global Laser i ymchwilio ffyrdd ychwanegol o weithgaredd masnachol yn cynnwys y genhedlaeth nesaf o dechnoleg laser, tra'n parhau i weithio i sicrhau ansawdd gwell byth i'w gwsmeriaid," meddai.

Derbyniodd Global Laser fuddsoddiad gan Cyllid Cymru ccc mewn cylchoedd cyllido blaenorol.

Arweiniwyd y ddêl gan Rachel Miles, Swyddog Gweithredol Portffolio yn Cyllid Cymru ccc, gyda Rhian Pugh, Swyddog Gweithredu Buddsoddi. Dywedodd Rachel y byddai'r pryniant gan y rheolwyr yn galluogi Global Laser i symud ymlaen gyda chynlluniau am dwf." "Mae olyniaeth ddiwnïad tîm rheoli yn hollbwysig i dwf parhaus busnes. Rydym yn falch i fod wedi cefnogi'r rheolwyr i brynu Global La`ser gyda chyllid buddsoddi a fydd yn galluogi'r cwmni i dyfu a datblygu cynnyrch a marchnadoedd newydd."

- DIWEDD -

I gael mwy o wybodaeth cysyllter â:
Owain Betts, Rheolwr Marchnata Cyfathrebu, Cyllid Cymru ccc
Ffôn: 01686 613118 / 07899 926842
E-bost: Owain.Betts@financewales.co.uk
Canolfan cyfryngau: www.cyllidcymru.co.uk/cyfryngau

Nodiadau i'r golygydd

Cyllid Cymru ccc
Mae Cyllid Cymru ccc yn darparu cyllid masnachol i fusnesau bach a chanolig ledled Cymru, gan eu galluogi i wireddu eu potensial ar gyfer arloesedd a thwf. Yn is-gwmni i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae Cyllid Cymru'n rheoli cronfeydd o fwy na £130 miliwn; mae wedi buddsoddi mwy na £110 miliwn drwy fwy na 2000 buddsoddiad mewn busnesau seiliedig yng Nghymru ac wedi ysgogi £322 miliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat. www.cyllidcymru.co.uk.